# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-19-08)

**Dyddiad: 9 Hydref 2008**
**Amser: 9.00 - 11.00am**
**Lleoliad: Ystafell Gynadledda 22**

## Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn

Lesley Griffiths, Wrecsam

Darren Millar, Gorllewin Clwyd

Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Brynle Williams, Gogledd Cymru

Leanne Wood, Canol De Cymru

## Gwasanaeth y pwyllgorau

**Virginia Hawkins, Clerc**

**Meriel Singleton, Dirprwy Glerc**

## Eraill yn bresennol

Catrin Maby, Cyfarwyddwr, Asiantaeth Ynni Hafren Gwy

Ian Draisey, Dulas Ltd

Richard Carter, Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru

Richard Tomlinson, Free-energy

Cris Tomos, Prosiect microgynhyrchu cymunedol Hermon

Nick Tune, Cyfarfwyddwr, Building Research Establishment Cymru

Monika Munzinger, Rheolwr Rhaglen, y Sefydliad Ymchwil Adeiladu

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies, Lorraine Barrett a Karen Sinclair. Croesawodd y Cadeirydd Rhodri Glyn Thomas i'r pwyllgor.

### Eitem 2: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni SC(3)-19-08 (p1), (p3), (p4)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Catrin Maby, Ian Draisey, Richard Carter, Richard Tomlinson a Cris Tomos i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi sylwadau agoriadol mewn perthynas â lleihau allyriadau carbon drwy gynhyrchu ynni. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r tystion.

2.2 Gwahoddodd y Cadeirydd Ian Draisey i aros ar gyfer yr ail sesiwn dystiolaeth.

### Eitem 3: Ymchwiliad i leihau allyriadau carbon: sesiwn dystiolaeth ar gynhyrchu ynni SC(3)-19-08 (p5), (p6)

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Nick Tune a Monika Munzinger i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi sylwadau agoriadol mewn perthynas â gwaith y Sefydliad Ymchwil Adeiladu a'r Rhaglen Adeiladu Carbon Isel. Gofynnod yr Aelodau gwestiynau i'r tystion.

3.2 Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu i'r Gronfa Loteri Fawr a WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) er mwyn gofyn am wybodaeth bellach am y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y tystion.

3.3 Cytunodd Nick Tune i anfon gwybodaeth bellach ynghylch y gwaith a gyflawnir gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu mewn perthynas â phrosiect Blaenau'r Cymoedd.

3.4 Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu i'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio er mwyn gofyn am eglurhad o ran posibilrwydd estyn yr amserlen ar gyfer y Rhaglen Adeiladu Carbon Isel y tu hwnt i Fehefin 2009; y broses trosglwyddiad ar gyfer cronfeydd na chafodd eu gwario yn y Rhaglen Adeiladu Carbon Isel; a chynnwys inswleiddio wal solet yn y Targed Lleihau Allyriadau Carbon.

### Eitem 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5

4.1 Cafwyd cynnig gan y Cadeirydd, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitem 5 er mwyn galluogi'r pwyllgor i drafod materion mewn perthynas â'i adroddiad ar y ddeiseb yn galw am wahardd bagiau plastig.

3.2 Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig a symudodd i sesiwn breifat.

### Eitem 5: Ystyried ymchwiliad i'r ddeiseb yn galw am wahardd bagiau plastig
### SC(3)-18-08 (p7)

5.1 Cytunodd y pwyllgor i anfon yr adroddiad at Alun Ffred Jones a Mike German er mwyn iddynt gyflwyno eu sylwadau.

### Eitem 6: Papurau i'w nodi
### SC(3)-19-08 (p8) (p9)

6.1 Nododd y pwyllgor y papurau.